

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James



Mabolgampau Ysgol – Dydd Iau nesaf

Fel yr addawyd yn y llythyr wythnos diwethaf, dyma [ddolen i'r Rhaglen](#) ar gyfer ein Mabolgampau eleni.

Mae croeso i chi fel rhieni fynychu'r mabolgampau. Ar gyfer plant y Meithrin, os oes modd i'r plant sydd fel arfer yn mynychu yn y boreau yn unig fynychu yn y prynhawn ar y diwrnod hwnnw byddai hynny'n wych. Rhannwch unrhyw anawsterau gyda staff y Meithrin os gwelwch yn dda.

Bydd y Mabolgampau yn cychwyn am **12:45yp i flynyddoedd 1-6**; ac am **1 o'r gloch ar gyfer y Meithrin a Derbyn**.

Diolch hefyd i aelodau o'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon mi fydd lluniaeth ar gael yn ystod y prynhawn. Dyma rannu [llythyr](#) gyda chi yn gofyn yn garedig am gyfraniadau ar gyfer y prynhawn – gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr.

Er gwybodaeth hefyd, cynhelir Ras y Marathon ar gyfer disgyblion bl.3-6 ddydd Mawrth nesaf, Mehefin 18fed ar gae yr ysgol. Mae hyn yn un o'r cystadlaethau paratoadol at y Mabolgampau Ysgol, fel y naid uchel a'r naid hir ac ati, er mwyn cyfrannu at bwyntiau personol y plant.

Gwersi Offerynnol



Bydd Taith y Gwasanaeth Cerdd yn neuadd yr ysgol yn ystod bore yr 20fed o Fehefin. Bwriad y daith yw i arddangos yr offerynnau sydd ar gael i'r disgyblion fel rhan o wasanaeth Cerdd y Sir.

Ymarfer Côr a Cherddorfa Proms Ceredigion – Bl.6 a Chân Actol

Mae nifer o ddisgyblion Blwyddyn 6 eisoes wedi dangos diddordeb mewn ymuno yng Nghôr Ceredigion ac yn awyddus i berfformio yn y Proms eleni. Ar gyfer y gerddorfa, mae disgyblion eisoes wedi cael eu hadnabod gan eu hathrawon offerynnol.

Bydd yr ymarferion ar gyfer y Proms fel hyn: [Ymarfer Côr – dydd Gwener 21^{ain} o Fehefin](#); [Ymarfer Cerddorfa 28^{ain} o Fehefin](#).

Bydd bws yn mynd o'r ysgol yn y bore a dychwelyd yn y prynhawn. Bydd angen pecyn bwyd arnynt.

(Er gwybodaeth, dyddiad y PROMS yw 2^{ail} o Orffennaf 2024. [Mae'r Gân Actol yn perfformio hefyd](#))

Tripliau Haf

[Dyma ddolen i ffurflen](#) ar gyfer archebu pecyn bwyd i ginio ar gyfer eich plentyn ar ddiwrnodau allan o'r ysgol megis y trip haf. Eich dewis yw i ddarparu pecyn bwyd cinio eich hunan i'ch plentyn, neu i ddychwelyd y ffurflen hon o leiaf wythnos cyn y diwrnod i athro/athrawes eich plentyn er mwyn i'r gegin gael gwybod mewn da bryd fod angen paratoi cinio ar gyfer eich plentyn.



Sioe Aberystwyth

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion yr ysgol a gystadlodd yn Sioe Aberystwyth benwythnos diwethaf. Cafodd nifer helaeth o blant eu canmol, gan ennill gwobrau mewn nifer o gategoriâu. Llwyddodd yr ysgol i ennill y categori 'Ysgol Gynradd gyda'r mwyaf o bwyntiau' – da iawn chi blant!


Diwrnod Cau H.M.S

Fel y nodwyd eisoes yn y Calendr Hanner Tymor, bydd yr ysgol ar gau i blant ar ddydd Gwener yr 28^{ain} o Fehefin.

Rhannu gwybodaeth



Rygbi Ysgolion
Ceredigion
Schools Rugby



Os am drafod ymhellach/
Please direct any queries to:
RichardsC484@hwbcymru.net


o dan/
under
11

**DIWRNOD ADNABOD CHWARAEWYR
YSGOLION CEREDIGION SCHOOLS
PLAYER IDENTIFICATION DAY**

Dydd Mercher **26.06.2024** Wednesday
10:30-14:00

Caeau Ymarfer Cwmann Training Fields, SA48 8DU

Agored i ferched a bechgyn Blwyddyn 5 a 6. Nid oes rhaid bod yn aelod o glwb rygbi. Dylai pob disgybl sy'n mynychu drefnu cludiant eu hunain. Bydd angen pecyn bwyd a photeli dŵr arnynt.
Open to girls and boys in Years 5 and 6. Club experience is not essential. All attendees must arrange their own transport to and from the ID day and must bring a packed lunch, plenty of water and appropriate clothing with them.




Sioe Haf
**CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE**
Summer Show

**ROALD DAHL'S
CHARLEY
AND THE CHOCOLATE FACTORY**

Llyfr gan | Book by David Greig | Cerddoriaeth gan | Music by Marc Shalman | Geiriau gan | Lyrics by Scott Wittman & Marc Shalman

Yn seiliedig ar y nofel gan | Based on the novel by ROALD DAHL
Caneuon o'r Ffilm gan | Songs from the Motion Picture by LESLIE BRICUSSE & ANTHONY NEWLEY
Cyflwynir trwy drefniant bydla | Presented by arrangement with Music Theatre International

**Awst 9 - 31 August
2024**



**CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE**

**FFYNNANT LEVELLING
BRO**

£32 (£28)
£26 y plentyn / child
£26 Grwp o 10+ / Group of 10+
£84 - £136 Tocyn teulu / Family ticket

01970 62 32 32
artstaff@aber.ac.uk
aberystwythartscentre.co.uk
@aberystwytharts

Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr **hanner tymor hwn**. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r haf ar ddydd Gwener y 19eg o Orffennaf.

Bydd y flwyddyn ysgol newydd yn cychwyn ar ddydd Mercher y 4^{ydd} o Fedi i blant (bydd hyfforddiant staff ar yr 2^{ail} a 3^{ydd}).

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

14/06/2024

www.ysgolgyfraeg.cymru

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James



School Sports Day – Next Thursday

As promised in last week's letter, [here is a link to the Programme](#) for our Sports Day this year.

You as parents are welcome to attend the sports. For the Nursery children, if it is possible for the children who normally only attend in the mornings to attend in the afternoon on that day that would be great. Please share any difficulties with the Meithrin staff.

Sports Day will start at 12:45pm for years 1-6; and at 1 o'clock for Nursery and Reception.

Thanks also to members of the Parent Teacher Association, refreshments will be available during the afternoon. Here is a [letter](#) to share with you kindly asking for donations for the afternoon - your support is greatly appreciated.

Also for your information, the Marathon Race for pupils in years 3-6 will be held next Tuesday, June 18th on the school field. This is one of the preparatory competitions for the School Sports, such as the high jump and the long jump etc., in order to contribute to the children's personal points.

Instrumental Lessons



The Music Service Tour will be in the school hall during the morning of the 20th of June. The purpose of the visit is to give a display of the instruments available to the pupils as part of the County Music service.

Ceredigion Proms Choir and Orchestra Practice - Year 6 and Cân Actol

Several Year 6 pupils have already shown an interest in joining Côr Ceredigion and are keen to perform at the Proms this year. For the orchestra, pupils have already been identified by their instrumental teachers.

The rehearsals for the Proms will be as follows: Choir Rehearsal – Friday 21st June; Orchestra Rehearsal 28th of June.

A bus will go from the school in the morning and return in the afternoon. They will need a packed lunch.

(For information, the date of the PROMS is 2nd July 2024. The Cân Actol is also performing)

Summer Trips

[Here is a link to a form](#) for ordering a packed lunch for your child on days out of school such as the summer trip.

Your choice is to provide your child with your own packed lunch, or to return this form at least a week before the trip to your child's teacher so that the kitchen is informed in good time that a packed lunch needs to be prepared for your child.



Aberystwyth show

Congratulations to the pupils of the school who competed in the Aberystwyth Show last weekend. A large number of children were praised, winning prizes in a number of categories. The school managed to win the 'Primary School with the most points' category - well done everyone!

INSET Day – school closed

As already stated in the Half Term Calendar, the school will be closed to children on Friday the 28th of June.

Information sharing



Rygbi Ysgolion
Ceredigion
Schools Rugby

o dan/
under
11


Os am drafod ymhellach/
Please direct any queries to:
RichardsC484@hwbcymru.net

**DIWRNOD ADNABOD CHWARAEWYR
YSGOLION CEREDIGION SCHOOLS
PLAYER IDENTIFICATION DAY**

Dydd Mercher **26.06.2024** Wednesday
10:30-14:00

Caeau Ymarfer Cwmann Training Fields, SA48 8DU

Agored i ferched a bechgyn Blwyddyn 5 a 6. Nid oes rhaid bod yn aelod o glwb rygbi. Dylai pob disgybl sy'n mynychu drefnu cludiant eu hunain. Bydd angen pecyn bwyd a photeli dŵr arnynt.
Open to girls and boys in Years 5 and 6. Club experience is not essential. All attendees must arrange their own transport to and from the ID day and must bring a packed lunch, plenty of water and appropriate clothing with them.



Sioc Haf
**CANOLFAN Y CEFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE**
Summer Show

**ROALD DAHL'S
CHARLIE
AND THE CHOCOLATE FACTORY**

Llyfr gan | Book by David Greig
Cerddoriaeth gan | Music by Marc Shaiman
Cefiriau gan | Lyrics by Scott Wittman & Marc Shaiman

Yn seiliedig ar y nofel gan | Based on the novel by ROALD DAHL
Caneuon o'r Ffilm gan | Songs from the Motion Picture by LESLIE BRICUSSE & ANTHONY NEWLEY
Cyflwynir trwy drefniant gyda | Presented by arrangement with Music Theatre International

**Awst 9 - 31 August
2024**

**CANOLFAN Y CEFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE**

**FFYNIANT
BRO**

**LEVELLING
UP**

£32 (£28)
£26 y plentyn / child
£26 Grŵp o 10+ / Group of 10+
£84 - £136 Tocyn teulu / Family ticket

01970 62 32 32
artstaff@aben.ac.uk
aberystwythartscentre.co.uk
@aberystwytharts

Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for **this half term**. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.

Important dates for next half term

The school will close for the summer holidays on Friday the 19th of July.

The new school year will start on Wednesday the 4th of September for children (staff training will be on the 2nd and 3rd).

If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,
Gareth L James
Acting Headteacher
14/06/2024

www.ysgolgymraeg.cymru